# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 8 Mai 2012** |
| Amser: | **08:30 - 09:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Aled Elwyn Jones**<br>**Claire Fife, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nodwyd y cofnodion gan y Pwyllgor ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

3(i) **Busnes yr wythnos hon**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitem o fusnes a ganlyn ddydd Mercher 9 Mai:

- Cynnig i ddirymu Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012.

Ddydd Mawrth a dydd Mercher, cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o funses.

### 3(ii) Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

## 4. Pwyllgorau

### 4(i) Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Cais i ymweld â Belfast ar 20-21 Mehefin 2012

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i gynnal ymweliad astudio â Belfast ar 20-21 Mehefin 2012.

### 4(ii) Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cais i gyfarfod ym Mhrifysgol Glyndŵr

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar gais gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithas i gynnal cyfarfod ffurfiol ym Mhrifysgol Glyndŵr ddydd Iau 14 Mehefin 2012.

## 5. Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Biliau preifat

Trafododd y Pwyllgor Busnes Orchmynion Sefydlog drafft ar gyfer Biliau Preifat a chytunodd i'w trafod ymhellach mewn cyfarfod cyhoeddus o'r Pwyllgor Busnes ddydd Llun 14 Mai 2012.

### Busnes Arall

Ar gais y Rheolwyr Busnes, cytunodd Arweinydd y Tŷ i ddarparu nodyn yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu a yw am ddefnyddio'r weithdrefn negyddol neu'r weithdrefn gadarnhaol wrth wneud rheoliadau.